

Sgôp y Cynllun gweithredu:

Mae'r Cynllun Gweithredu hwn ar gyfer porfeydd crawcwellt a phorfeydd brwyn¹, a adnabyddir yn lleol fel "Rhos". Tra y gellir darganfod 'rhos' ar sawl uchder, yn y tiroedd isel y mae'r porfeydd sydd o bwysigrwydd arbennig i fioamrywiaeth, ac felly mae'r cynllun gweithredu hwn yn cael ei gyfyngu i porfeydd crawcwellt a phorfeydd brwyn sy'n tyfu islaw i wal y ffridd².

Ceir Porfa Rhos yn bennaf ar lwyfandiroedd tonnog a llethrau bryniau, yn ogystal ag mewn dyffrynnoedd afonydd a nentydd ac mewn gwastatiroedd llifogydd isel ger yr arfordir neu rhai mewndirol. Gall 'Rhos' hefyd fod yn rhan o fosaig cymhleth gyda darnau eraill o diroedd gwlyb, rhostir gwlyb, tir gwair sych a phrysgoed. Pan y ceir y tyfiant hwn ar fawng dwn, caiff ei gynnwys o fewn CGC Tiroedd Gwlyb.

1. SEFYLLFA BRESENNOL

1.1 Deddfwriaeth a statws blaenoriaeth

Rhyngwladol	Cyfarwyddiaeth Cynefinoedd ^b (Atodiad I)
DU a Cymru	Deddfwriaeth SDGA ^c (Rhai ardaloedd o borfa rhos) Blaenoriaeth CGB DU Rhestr S74 Cymru ^d
Gwynedd	CGB Eryri

1.2 Sefyllfa yng Nghymru a thu hwnt

Tu allan i'r DU, ceir 'rhos' yng Ngweriniaeth Iwerddon (ble y mae adnodd mawr ar ôl) a rhanbarthau cefnforol ac is-gefnforol eraill. Yn y DU, mae'n debyg ei fod yn cyrraedd ei ffin ogleddol yn Argyll, gydag efallai gymaint â 56,000ha ar ôl². Amcangyfrifir bod 35,000ha o borfa 'rhos' yng Nghymru, sy'n debygol o fod yn gyfran uchel o'r cyfanswm a geir yn y DU²

Mae Glaswellt Porffor y Gweunydd a phorfeydd hesg yn nodedig o amlwg ym meysydd glo De Cymru; ac yn siroedd Caerfyrddin a Morgannwg gyda'i gilydd y ceir dros draean o holl arwynebedd y cynefin hwn yng Nghymru.

^a Yn yr ucheldir, mae tyfiant Crawcwellt wedi cymryd lle cymunedau o dir lleidiog a rhostir gwlyb, sydd o ddiddordeb cadwraeth neilltuol.

^b Rhestrir rhai elfennau o borfa Rhos yn Atodiad I o'r "Habitats Directive" - Cyfarwyddiaeth Cyngor 92/43/EEC of 21 Mai 1992 ar gadwraeth cynefinoedd naturiol ac o ffawna a blodau gwyllt.

^c Deddf Bywyd Gwyllt a Cefn Gwlad 1981, Deddf Cefn Gwlad a Hawl Tramwy (CRoW) 2000.

^d Llywodraeth Cynulliad Cymru Mynd yn Wyllt yng Nghymru - Rhestr o Rywogaethau a Chynefinoedd o Bwysigrwydd Pennaf i amcanion Diogelu Amrywiaeth Biolegol. Hawlfraint y Goron 2003.

1.3 Sefylla yng Ngwynedd^e

Mae gan Wynedd dros 4% o adnodd Cymru, sydd yn oddeutu 290ha o gymunedau Pporfeydd crawcwellt a Phorfeydd brwyn NVC iseldirol, a'r dwysedd uchaf, gyda 3.7 ha/cm².³ Mae pocedi o'r math yma o gynefin yn parhau i fodoli yng Ngwynedd, gydag ardaloedd mwy o'r cynefin yma i'w canfod yn Arfon (yn enwedig ar odre'r ucheldir) a chanol a gorllewin Llŷn.



Mae un math o rostir NVC mwy prin i'w ganfod yng Ngwynedd, *Juncus subnodulosus* - *Cirsium palustre* corstir; mae enghreifftiau hefyd o gorstir *Molinia* - *Cirsium dissectum*, sydd yn un o'r cymunedau llawer mwy lleoledig. Mae gostyngiad wedi bod mewn porfeydd rhos yng Ngwynedd, o bosib ers yr 1930au, gyda llawer ohono'n cael ei ddisodli gan borfeydd rhygwelltog.

2. FFACTORAU SYDD YN EFFEITHIO AR Y RHYWOGAETH YMA YNG NGWYNEDD

- Gwella amaethyddol drwy ddraenio, aredig, ailhadu, tynnu cerrig mawr o'r tir a rhoddi gwrteithiau.
- Rheolaeth anaddas, yn cynnwys gor-bori a llosgi'n rhy aml.
- Gadawiad amaethyddol, yn arwain at dyfiant toreithiog a thresmasiad prysgoed drwy ddiffyg pori.
- Darnio, ynysiad ac amhariaeth gan ddatblygiadau megis adeiladu tai a ffyrdd.

3. CGR A CGC PERTHNASOL YNG NGWYNEDD

Ymylon caeau âr, Cloddiau, Tir gwair asidaidd iseldirol, Porfeydd arfordirol a gwastatir gorlif, Gwrychoedd, Llynnoedd, pyllau a ffosydd, Porfeydd a dolydd iseldirol, Gwlyptiroedd.

Llygoden ddŵr, Ystum trwyn pedol lleiaf, Ystumod, Tylluan wen, Gylfinir, Adar tir fferm, Cornchwigen, Brith y Gors.

^e O fewn y ddogfen yma mae'r term 'Gwynedd' yn cyfeirio at ardaloedd tu allan i Barc Cenedlaethol Eryri, onibai ei fod yn nodi i'r gwrthwyneb.

4. CAMAU CYFREDOL YNG NGWYNEDD

4.1 Diogelu safleoedd a chynefinoedd

- Mae sawl safle gyda porfeydd rhos wedi eu hadnabod fel Safleoedd Bywyd Gwyllt posib: 253 o'r 362 safle corstir sydd wedi eu cynnwys o fewn cronfa ddata Safleoedd Bywyd Gwyllt posib Gwynedd wedi eu nodi fel manau sydd yn cynnal tir 'rhos'.
- Mae rhai enghreifftiau o dir rhos o fewn safleoedd sydd wedi eu dynodi fel ymgeisyddACA. Mae ardaloedd eraill wedi eu hamddiffyn gan ddeddfwriaeth SoDdGA (e.e. SoDdGA Cappas Llwyd, Cors y Wlad).
- Mae rheoliadau AEA (tir heb ei aredig ayb.^f) yn cynnig peth amddiffyniad rhag draenio a gwella safleoedd dros 1 hectar.

4.2 Rheolaeth a Chynlluniau Gweithredu

- Mae rhai tiroedd rhos wedi eu cynnwys dan gytundebau Tir Cymen (cynlluniau 10 mlynedd olaf wedi dechrau yn 1998), Tir Gofal neu ESA Llŷn.

4.3 Arolygon, ymchwilio a monitro

- Mae'r Cyngor Cefn Gwlad Cymru wedi ymgymryd ag arolwg trylwyr o safleoedd a rhaglen asesu sydd wedi arwain yn barod at ddynodiad mwy o SoDGAau ar gyfer y cynefin yma. Mae'r gwaith yma hefyd wedi arwain at ddewis dau o'r safleoedd hyn fel yACA.
- Cynigwyd ymchwil pellach i adnabod technegau atgyweirio fel rhan o raglen ymchwil bioamrywiaeth sydd wedi'i gyllido gan y Llywodraeth. Y Cyngor Cefn Gwlad Cymru yw'r asiantaeth flaen ar gyfer cydlynu'r CGC 'rhos' Prydain.

5. AMCANION Y CYNLLUN GWEITHREDU⁹

1. I gynnal ardal porfeydd rhos presennol yng Ngwynedd a sicrhau rheolaeth addas iddo yn y tymor hir.
2. I adfer ardaloedd o dir rhos blaenorol neu dir rhos sydd wedi ei addasu, er mwyn cynyddu cyfanswm tiroedd rhos o tua 5%.

^f Rheoliadau AEA ar gyfer defnydd o dir sydd heb ei aredig a llecynau rhannol-naturiol ar gyfer pwrpasau amaethyddol dwys.

⁹ Gyda blaenoriaeth yn cael ei rhoi i gymunedau iseldirol sy'n fwy cyfoethog o ran rhywogaethau ac yn fwy prin (yn enwedig os ydynt yn 0.5 ha neu fwy), a'r cymunedau mwy cyffredin mewn safleoedd anial mewn manau ucheldirol (yn enwedig os ydynt yn 5 ha neu fwy) ac i gynefinau brith ecolegol amrywiol.

6. CAMAU ARFAETHEDIG

Côd	Camau	Partner(iaid) ^h
Polisi a Deddfwriaeth		
1	Ystyried sefydlu grŵp gweithio ar y cyd gyda APCE i sicrhau gweithrediad effeithiol o gynlluniau gweithredu gwlyptir Eryri a Gwynedd. TARGED/ AMSERLEN: Erbyn 2005	CG, APCE,
2	Defnyddio amodau cynllunio i sicrhau fod yn cydfynd â chadwraeth Porfa rhôs TARGED: Cyfredol	CG
3	Sicrhau fod yr holl enghreifftiau o'r cynefin yma sydd yn cwrdd â'r meini prawf yn cael eu dynodi fel Safleoedd Bywyd Gwyllt. TARGED/ AMSERLEN: Dechrau'r broses ddynodi yn ystod 2004	CG, CCGC, CBNGCC
Rheoli a Diogelu Rhywogaethau / Cynefinoedd		
4	Hyrwyddo a chefnogi cynlluniau grant yn cynnwys Tir Gofal, AAS Llŷn a / neu gytundebau rheolaeth i sicrhau rheolaeth ffafriol ac / neu adferiad porfa rhos, gan ystyried anghenion y rhywogaethau a chynefinoedd CGB cysylltiedig TARGED/ AMSERLEN: Rheolaeth ffafriol o 75% o borfa rhos Adfer 15 ha erbyn 2009	CCGC, CyT, AACChG, Ccth, GCFfBG, CG, UCF UFC
5	Canfod cyllid ar gyfer rheolaeth tir drwy ddatblygu cynllun grant bioamrywiaeth, a fyddai'n cynnwys grantiau ar gyfer rheolaeth addas, adferiad a chreu porfa rhos. TARGED: 2005	CG, partneriaid perthnasol
6	Sicrhau fod cadwraeth a gwella porfa rhos neu cynefin / porfa gysylltiedig yn cael ei ystyried o fewn unrhyw gynlluniau rheoli neu gynlluniau grant (yn cynnwys CRCCs, CGC, Tir Gofal, AAS) drwy gyswllt (yn cynnwys ymgyngori a darpariaeth sylwadau) ymysg cyrff allweddol. TARGED/ AMSERLEN: Cyfredol	CCGC, AACChG, Ccth, CG, YG, CBNGCC
Cyngor		
7	Darparu cyngor i berchnogion a rheolwyr tir ar reolaeth addas o borfa rhos. TARGED/ AMSERLEN: Cyfredol	CCGC, CyT, AACChG, UAC, UCF, CG, YG, CBNGCC, APCE
Arolwg, ymchwil a monitro		
8	Adnabod holl safleoedd porfeydd rhos a'u safon drwy raglen rhestru data sydd ar gael (arolygon safleoedd bywyd gwyllt ac arolygon Ail Gyfnod) a gwaith arolygu (data i'w gadw ar ffurf elegtronig ac adnabod ardaloedd a gyfe ail-sefydlu (hen safleoedd gerllaw neu yn agos i safleoedd cyfredol) TARGED/ AMSERLEN: Erbyn 2005	CCGC, CEH, CG, YG, CBNGCC, CPC
9	Rhoddi cymorth gyda thechnegau arolygu rheolaeth ac adferiad porfeydd rhos ble bo hynny'n addas ac yn ymarferol. TARGED/ AMSERLEN: Cyfredol	CCGC, CEH, CPB, CBNGCC
10	Annog arolygon o grwpiau eraill o rywogaethau sydd i'w canfod ar dir rhos, a hefyd ymchwilio anghenion rheoli'r holl brif rywogaethau. TARGED/ AMSERLEN: Cyfredol	CCGC, YAP, CEH, GGB, CBNGCC, CPB
Cyfathrebu a chyhoeddusrwydd		
11	Codi ymwybyddiaeth am borfeydd rhos a'u cadwraeth ymysg perchnogion a rheolwyr tir drwy gyhoeddi erthyglau mewn cyhoeddiadau perthnasol a rhoi cyflwyniadau llafar i grwpiau perthnasol (e.e. cyhoeddiadau a chyfarfodydd lleol UAC, UFC, CyT) TARGED/ AMSERLEN: cyfredol	CCGC, CG, YG, CBNGCC

^h Y prif bartner ar gyfer y gweithredu yma wedi ei nodi gyda ysgrifen dywyll, gweler rhan 7.2 am eglurhad o'r byr foddau

12	Codi ymwybyddiaeth gyhoeddus am borfeydd rhos a rhywogaethau cysylltiedig drwy erthyglau yn y cyfryngau, diwrnodau agored, teithiau cerdded ar ffermydd, dehongliadau a digwyddiadau. TARGED/ AMSERLEN: Cyfredol	CG, CCGC, YG, CBNGCC
----	---------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------	----------------------

7 PARTNERIAID A CHYFLEON

7.1 Prif bartner ar gyfer CGR

Cyngor Cefn Gwlad Cymru (CCGC)

7.2 Partneriaid allweddol

Adran yr Amgylchedd Cynllunio a Chefn Gwlad (AACChG)

Undeb Amaethwyr Cymru (UAC)

Grwp Cynghori Ffermio a Bywyd Gwyllt (GCFfBG)

Gwarchod Glynod Byw (GGB)

Canofan Hydroleg ac Ecoleg (CEH)

Cymdeithas y Tirfeddianwyr (Cyt)

Comisiwn Coedwigaeth (CCth)

Cyngor Gwynedd (CG)

Undeb Cenedlaethol y Ffermwyr (UCF)

Ymddiriedolaeth Genedlaethol (YG)

Cymdeithas Byd Natur Gogledd Cymru (CBNGCC)

Ymddiriedolaeth Adaryddol Prydain (BTO)

Awdurdod Parc Cenedlaethol Cymru (APCE)

Coleg Prifsgol Cymru Bangor (CPB)

7.3 Cyfleon

Undebau ffermwyr, Perchnogion a rheolwyr tir.

8. DIOLCHIADAU

Awdur: Dave Elliot, CPB

Darluniau llinell: English Nature

9. BYRFODDAU

ACA:Ardal Cadwraeth Arbennig, CGB: Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth, AEA: Asesiad Effatîh Amgylcheddol, AAS:Adal Amgylcheddol Senssitif, CGC: Cynllun Gweithredu Cynefin, JNCC: Cyd Bwyllgor Gwarchod Natur, CGR Cynllun Gweithredu Rhywogaeth, SoDGA: Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Neilltuol, WGS:Cynllun Grantiau Coetiroedd, NVC:National vegetation Classification. CRCC: Cynllun Rheolaeth Coeddir Cynnhenid

¹ Dosbarthiad Grwp Bioamrywiaeth y DU - Jackson, D.L. 2000. Guidance on the interpretation of the Biodiversity Broad Habitat Classification (terrestrial and freshwater types): Definitions and the relationship with other habitat classifications. Adroddiad JNCC Rhif 307.

² CGB Prydain ar gyfer Glaswellt Porffor y Gweunydd a phorfa hesg

²Jones, P.S. et al, 2003. Priority habitats of Wales: a technical guide. CCGC.